Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Annwyl Rieni a Gwarchodwyr

Wrth i ni nesáu at y Nadolig a diwedd tymor yr hydref hoffwn fanteisio ar y cyfle i ysgrifennu i ddiolch i'r holl ddisgyblion, staff a theuluoedd am eu cefnogaeth a'u hymdrechion yn y frwydr yn erbyn COVID-19. Mae eich ymdrechion wedi profi'n llwyddiannus wrth i gyfraddau'r achosion a gadarnhawyd sy'n gysylltiedig ag Ysgolion Sir Ddinbych barhau i fod yn isel. Mae hyn oherwydd gwaith caled pawb dan sylw.

Nodwyd ddoe yn natganiad y Gweinidog Addysg Kirsty Williams y bydd ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru i gyd yn symud i ddysgu ar-lein o ddydd Llun, 14 Rhagfyr fel rhan o 'ymdrech genedlaethol i leihau trosglwyddo coronafeirws. Penderfynwyd hyn yn dilyn cyngor arbenigol gan Brif Swyddog Meddygol Cymru ar y sail bod sefyllfa iechyd cyhoeddus yng Nghymru yn dirywio.

Anogir ysgolion cynradd ac arbennig i aros ar agor ond rydym yn monitro eu sefyllfaoedd unigol yn ofalus ac os oes unrhyw gynnydd sylweddol yn achosion Covid-19 gallai'r sefyllfa bresennol newid.

Bydd pob ysgol uwchradd yn trefnu dysgu o bell i'w disgyblion ac hoffwn ategu geiriau'r Gweinidog Addysg nad yw y cyfnod hwn yn wyliau Nadolig cynnar; bydd addysg ar-lein yn cael ei ddarparu hyd at 18 Rhagfyr.

Gwn fod amser y Nadolig ym mhob un o'n hysgolion yn gyfnod o gyffro a llawenydd mawr i'n myfyrwyr. Mae hefyd yn adeg o'r flwyddyn pan fydd y demtasiwn i grwydro o'r rheolau caeth y gofynnwyd i ni eu dilyn cyhyd yn uwch nag erioed. Rydym yn gofyn, er mwyn i bawb sydd wedi gweithio'n ddiflino i fwynhau gwyliau Nadolig, eich bod yn parhau i gadw at y rheolau fel y gwn fod cynifer ohonoch wedi'i wneud.

Diolch am eich holl gefnogaeth yn ystod tymor hynod heriol i'n holl ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu cefnogi ac yn gweithio ynddynt. Gobeithio y cewch Nadolig hapus a chyfle i orffwys ychydig.

Yn gywir

**Geraint Davies**
Pennaeth Addysg dros dro

Dear Parents and Guardians

As we approach Christmas and the end of the autumn term I wanted to take this opportunity to write to thank all pupils, staff and families for their support and efforts is the fight against COVID-19. Your efforts have proven successful as the rates of confirmed cases associated with Denbighshire Schools continue to be low. This is down to the hard work of all concerned.

The announcement yesterday from the Education Minister Kirsty Williams stated that secondary schools and colleges in Wales will all move to online learning from Monday, December 14 as part of a 'national effort to reduce transmission of coronavirus. This decision was taken following expert advice from Wales's Chief Medical Officer showing that the public health situation in Wales was deteriorating.

Primary and Special schools are encouraged to remain open however we are monitoring their individual positions carefully and if there are any significant increases in Covid19 cases the current position could change.

Each secondary schools will be arranging remote learning for their pupils and to echo the words of the Education Minister this period is not an early Christmas holiday; online education will be provided up until December 18th.

I know that Christmas time in all of our schools is a time of great excitement and joy for our students. It is also a time of year when the temptation to stray from the strict rules we have been asked to follow for so long may be higher than ever. I would ask that in order for everyone who have worked tirelessly to enjoy a happy Christmas holiday, we continue to observe the rules as I know so many of you have.

Thank you for all of your support during what has been a hugely challenging term for all of our schools and the communities they support and work in. I hope that you have a happy and restful Christmas.

Yours sincerely

**Geraint Davies**
Interim Head of Education